**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhagfyr 2019

Annwyl gyfaill

Mae'r Nadolig yn prysur agosáu a hoffwn ddymuno pob diolch i chi a'ch staff am eich holl waith caled eleni.

Dros y deuddeg mis diwethaf rwyf wedi bod yn ddigon lwcus i ymweld â llawer o ysgolion a chwrdd â channoedd, os nad miloedd, o athrawon a phenaethiaid yn ogystal ag athrawon y dyfodol.

Ym mhob ysgol rwy'n gweld a theimlo angerdd ac ymroddiad athrawon sy'n ysbrydoli eu disgyblion i wneud y gorau y gallan nhw. Mae'r safonau uchel rydych yn eu gosod i ddisgyblion gyflawni'n academaidd law yn llaw â'r cynhesrwydd ac ymdeimlad o gymuned yn amlwg pan fyddaf yn cerdded i mewn i ysgol yng Nghymru.
Rwy'n synhwyro bod y daith yr ydym arni a'n brwdfrydedd dros ddysgu yn dechrau dangos cynnydd gwirioneddol o ran datblygu system addysg sy'n diwallu anghenion pobl ifanc yn 2020 a thu hwnt.

Mae ein hysgolion cynradd yn parhau i anelu at y safon uchaf ac yn paratoi myfyrwyr yn dda ar gyfer heriau addysg uwchradd, yn academaidd ac yn gymdeithasol. Adlewyrchwyd hyn yng nghanlyniadau TGAU a Safon Uwch ardderchog ein myfyrwyr ym mis Awst a'r gwelliannau amlwg a welsom yng nghanlyniadau PISA yn gynharach y mis hwn. Mae'n rhoi hyder i mi y gallwn, gyda'n gilydd, greu system addysg a gwydn ar gyfer y dyfodol, sy'n deg, sy'n gwella'n barhaus, ac sy'n destun balchder i Gymru.

Mae Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) yn cytuno bod y diwygiadau sydd ar y gweill gennym, gan gynnwys ein cwricwlwm newydd cyffrous a'n cynnig dysgu proffesiynol, yn mynd i'r cyfeiriad cywir. Maent yn cefnogi'n dull o ddiwygio'r system gyfan, gan gynnwys ein trefniadau atebolrwydd er mwyn creu amgylchedd lle y gellir gwireddu'r Cwricwlwm a gyhoeddir ym mis Ionawr yn greadigol yn ein hysgolion a gweld y manteision i'n disgyblion yr ydym oll am weld.

Rhan o'r cynllun i'ch cynorthwyo yw'r cynnig dysgu proffesiynol, gan gynnwys diwrnod hyfforddiant mewn swydd ychwanegol yn y gwanwyn. Ar gyfer y diwrnod rydym yn darparu adnoddau rhad ac am ddim sy'n esbonio'r cwricwlwm newydd.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA


Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Hoffwn ddiolch o galon i chi am eich ymroddiad chi, eich staff a'ch llywodraethwyr. Rwy'n edrych ymlaen at gyfarfod â llawer mwy ohonoch yn y flwyddyn newydd, ond tan hynny rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau eich gwyliau Nadolig a blwyddyn newydd dda iawn i chi oll.

Yn gywir



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education